CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg MEDI 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng W R Parry (Cadeirydd) Mrs L Roberts (Is - Gadeiryddes) Cyng Ms N Dafydd, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, D T Roberts.
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng G Jones, R R Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 16eg GORFFENAF 2024 YN RHAI CYWIR: Cyng N Dafydd, eilio Cyng R G Parry.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Gwyndy, Bodychan, Llandrygarn. Gadael ar hyn o bryd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/22024/219. Cais llawn ar gyfer newidiadau ac estyniadau i`r t?, addasu un storfa a chodi modurdy dwbl arwahan yn:-
   Hen Siop, Llandrygarn.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng Ms N Dafydd.

2. FPL/2024/236. Cais llawn ar gyfer codi annedd a garej arwahan a chreu mynedfa newydd ar dir tu ol i:-
   Tyn Coed, Bodffordd.
   Gwrthwynebu.
   Lon y beryglus, hefo`r ceir ar ochr arall yn parcio. Amharu a`r Cymdogion. Y math o dy dylai fod yn lawr sengl. Cyfeiro i`r Cymdogion.
   Cynnig Cyng W R Parry, eilio Cyng R G Parry.

3. FPL/2024/137. Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yn:-
   2, Minffordd, Bodffordd. (Gweler rhif 5)

PENDERFYNIADAU.

4. FPL /2024/134. Cais llawn ar gyfer lleoli adeilad swyddfa modiwladd yn :-
   Bodrwnsiwn Milfeddygfa, Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd.
   Caniatad.

5. FPL/2024/137. Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yn:-
   2, Minffordd, Bodffordd.
   Wedi ei dynnu`n ol.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

6. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Cyllid grant y helpu i greu Ynys Actif.
   Clybiau Chwaraeon a Sefydliadau Gwirfoddol ym Mon wedi elwa. Cronfa Llywodraeth y DU.
   Maen`t wedi rhoi £400,000 i Gyngor Mon.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.

7. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Cloddfa Gymunedol yn gobeithio datgelu hanes ffermio yng Nghymru.
   Gwirfoddolwyr wedi ei gwahodd i gymryd rhan yn y gloddfa gymunedol mis Medi i ddarganfod a cheisio diogelu hanes fferm draddodiadol Gymreig. Dechreuodd yr archwiliad llynedd ar Fferm Tyn y Maen, Rhoscloyn.
   Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Dim.

RHODDION.

9. Dim.

PLWYFOL.

10. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Diolchwyd iddi am ei gwaith trylwyr. Rhoddwyd gwybodaeth i`r Cyngor nad oedd yn ddoeth ariannu unigolyn wrth gyhoeddi llyfr / llyfryn. Mae rhaid chwilio am ddewis arall.

MATERION ARIANNOL.

11. Cyfrif Rhedegol. £25,749.66. (£20 Rhodd Margaret Stuart at y Fynwent Gymunedol)(£4,333,33 Praesept 2)
    Mynwent Gymunedol Bodffordd £8,610.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

12. Clerc £470.00. Treth Incwm 2. £325.50. Gweinyddu (3mis) £223.12. Zurich (Ysiwrant) £560.48.

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng Ms N Dafydd, eilio Cyng W R Parry.

D Owen (Clerc)